# papur priordy

**Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.'**

**(Iesu yn dyfynnu Eseia 61 yn ôl Luc 4:18-19)**

Dewiswyd gan y Dr Catrin Haf Williams
*Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 341**
**PAPUR CHWEFROR 2021**

# Gair gan ein Gweindog

## Amen!

***O ENAU*** plant bychain! Diolch i Miriam Wyrwoll am rannu'r stori hyfryd hon â ni. Dyma sgwrs rhwng eu dwy hwyres, Esyllt (10 oed) ac Efa (5 oed).



Roedd Esyllt ac Efa yn gweddîo am eira!

Esyllt: Efa, mae rhaid i ti ddweud Amen.

Efa: Na, ddwedes i Duw gyntaf so ma' fe wedi clywed.

Esyllt: 'Ma Amen fel *send* ar *messenger*, mae rhaid neud 'na i fe gael mynd'!

O enau plant bychain!

Ond, beth yw Amen a pham ydym yn ei ddweud ar ddiwedd gweddi? Ymateb ydyw, ac arwydd ein bod yn cytuno neu'n cadarnhau'r hyn sy'n cael ei ddweud. Caiff y gair ei ddefnyddio mewn addoliad Cristnogol, Iddewig ac Islamaidd.



Ie, mae'r Amen yn bwysig. Gofynnodd **Daniel James (Gwyrosydd**) ac awdur y geiriau Calon Lân mewn cerdd rywdro 'Pa le'r aeth yr Amen?'

Dim ond o'r braidd ydw i'n cofio cyfnod porthi'r diaconiaid o'r sedd fawr. Ac mae porthi'n air digon diddorol hefyd – ei ystyr yw bwydo (Porthi'r Pum Mil) a does dim dwywaith bod clywed ambell Amen yn sicr yn fodd i borthi'r pregethwr a chreu mwy o hwyl ynddo/ynddi wrth bregethu!

Digon tawel yw'r Amen (ond rwy'n ei glywed o bryd i'w gilydd!) mewn addoliad cyhoeddus ar y cyfan, ond mae'n dda clywed plant ysgol yn llefaru'r Amen yn gwbl hyderus yn ystod gwasanaeth ysgol - profiad teimladwy iawn a dweud y lleiaf.

Tybed a oes rhyw swildod crefyddol wedi cydio ynom sydd yn ein hatal rhag ynganu'r Amen? Neu falle nad ydych yn clywed unrhyw beth o'r pulpud sy'n werth ei Amenio!

Ta waith, dyma ein hatgoffa o eiriau Gwyrosdd, gan obeithio y bydd y gerdd hon yn hwb bach i ni i gyd fynd i chwilio am yr Amen a'i darganfod o'r newydd.

**Rwy'n weithia'n myfyrio nes poeni fy mhen**
**Wrth geisio cael allan ple'r aeth yr Amen;**
**Mi chwiliais y seti o'r drws i'r sêt fawr**
**Ond methais ei glywed ar lofft nac ar lawr.**
**Ble'r aeth yr Amen? Be ddaeth o'r Amen?**
**Os yw yn y galon, mae'r ddistaw dros ben.**




**Ti, Gristion, a'th einioes bron dirwyn i ben,**
**Er mwyn y dô ieuanc, paid mygu'r Amen,**
**Ond gollwng ef allan yn wrol dy lef,**
**A chofia 'Amen' yw *chorus* y nef.**
**O Arglwydd ein pen, rho'th ysbryd o'r nen,**
**Nes llefo pob enaid - Amen ac Amen.**

Gellir darllen cerdd Daniel James ar ei hyd ar wefan Canolfan Calon Lân.
**https://calonlancentre.info/da-ler-aeth-yr-amen-where-is-the-amen/**



Diolch Esyllt ac Efa am eich gweddi, a gobeithio i'r eira ddod!

***AMEN*!**

**Gweddi**

O Dduw, rwy ti gyda ni
yn ein dechreuad a'n diwedd,
bydd gyda ni yn awr yn ystod y cyfnod gofidus hwn.
Cynorthwya ni i ddod o hyd i ti
yn nryswch ein bywydau,
Gad i'th oleuni lewyrchu arnom
er mwyn i ni gael ein harwain i gerdded ar hyd dy ffyrdd di,
holl ddyddiau ein bywyd.

**Amen**

# DARLLENIADAU

| Mis Chwefror | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Marc 1: 29-39 |
| Wythnos 2<br>Gweddewidiad Iesu | Marc 2: 2-9 |
| Wythnos 3 | Marc 1: 9-15 |
| Wythnos 4 | Marc 8: 31-38 |

**PANED A SGWRS**
**Bore Mercher, 10 Chwefror 2021 am 11 o'r gloch**

**PANED CYN NOSWYLIO**
**Nos Fercher 17 Chwefror 2021 am 8 yr hwyr**

**Mae'r dydd yn fyr iawn dros fisoedd y gaeaf ac oriau hir o dywyllwch. Mae'r nos yn hir. Beth am ynuno â ni am sgwrs fer a phaned cyn noswylio?**

***Byddwch yn derbyn y dolenni ar gyfer y cyfarfodydd hyn mewn da bryd***

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**PETER A MEINIR HUGHES GRIFFITHS**
***Llaindelyn***
***a***
**THEULU TRYFAL**
***Llan Ffestiniog***

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

# GWASANAETHAU DIGIDOL
# MIS IONAWR



**Dydd Sul 3 Ionawr 2021**

Roedd Oedfa Gymun Gyntaf y Flwyddyn newydd yng ngofal ein Gweinidog. Roedd hi'n digwydd ychydig o ddyddiau cyn Gŵyl yr Ystwyll; ar 6 Ionawr, sef 12 niwrnod wedi'r Nadolig, pan deithiodd y Seryddion o'r Dwyrain i weld y Baban Iesu. Roedd y darlleniad (Efengyl Mathew 2: 1-12) yn adrodd hanes y digwyddiad hwn. A chawsom ein hannog ym myfyrdod ein Gweinidog i gamu i mewn i'r flwyddyn newydd ar hyd ffordd arall, fel y gwnaeth y Seryddion gynt – ffordd wahanol o symud ymlaen a byw a meddwl a gweithredu, wedi'n hysbrydoli gan brofiad preseb Iesu a'r sicrwydd o wybod y byddwn yn ddiogel yn ei gwmni, er gwaethaf holl ofnau ac ansicrwydd ein hamseroedd. Darllenodd ein Gweinidog adnodau o'r bennod gyntaf yn Ail Lythyr Paul at y Corinthiaid a chyflwyno Gweddi i'n tywys at Fwrdd y Cymun. Cawsom gydgymuno cyn i'r oedfa ddod i ben gyda'r Fendith Apostolaidd a'r emyn '*Dyma gariad fel y moroedd'*.





**Nos Lun 4 Ionawr 2021**

Cynhaliwyd Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn dros Zoom a braf oedd croesawu ffrindiau newydd atom y tro hwn. Roedd hi'n hyfryd gweld bod nifer o gapeli'r cylch yn ogystal â'r dref yn dangos diddordeb mewn ymuno â ni. A phriodol i ni oll oedd troi at Dduw am arweiniad mewn gweddi ar ddechrau blwyddyn newydd. Ein Gweinidog agorodd y cwrdd a'i darlleniad a'i gweddi'n troi o gwmpas Gŵyl yr Ystwyll. Caiff yr Ŵyl (6 Ionawr) ei chofio a'i dathlu fel amlygiad o Dduw i'r Tri Gŵr Doeth neu'r Seryddion a'u taith i gwrdd â'r baban newydd anedig sef Iesu. Cymerwyd rhan gan eraill hefyd a hyfryd oedd gwrando yn ogstal ar ddetholiad pwrpasol o gerddoriaeth.

**Dydd Sul 10 Ionawr 2021**

Roedd yr oedfa yng ngofal ein Gweinidog gyda chymorth Carwen Earles (Bancyfelin – Darlleniadau: Exodus 32:1-6 a 21-24 ac

Effesiaid 5: 8-12), Ann Jones (Cana – Gweddi) ac Alun Charles (Myfyrdod). Yn y myfyrdod, cyfeiriwyd at y ffordd rydyn ni'n gallu cael ein camarwain yn aml gan lywodraethau a masnachwyr y dyddiau hyn pan nad ydyn nhw'n gosod eu cardiau i gyd ar y bwrdd wrth drafod gwahanol faterion ac yn rhyw weiddi hys gyda'r ci a how gyda'r cadno. Mae sawl enghraifft yn y Beibl hefyd o bobl yn camarwain drwy fod yn gynnil gyda'r gwir, fel Aron a'r llo aur yn Exodus. Ond cawn ein siarsio yn Epistol Paul at yr Effesiaid i fyw fel Plant y Goleuni, sef fel y mae Duw eisiau i ni fyw - fel pobl yng Nghrist, yn amlygu daioni, cyfiawnder a gwironedd yn ein bywydau bob amser.

**Dydd Sul 17 Ionawr 2021**

**Cymdeithas a Gweddi**

Hyfryd oedd cymdeithasu â'n gilydd ar ddechrau Sul newydd a chlywed y newyddion diweddaraf am aelodau'r Ofalaeth. Roedd rhai cyfeillion yn ymuno â ni am y tro cyntaf. Yn dda clywed fod y frechlyn wedi cyrraedd a bod tro nifer ohonom wedi neu ar fin dod. Diweddodd ein Gweinidog y cyfarfod gyda gweddi o gyfrol Edwin C Lewis, *Mil a Mwy o Weddïau*, yn dwyn y teitl *Y Teulu* sy'n erfyn ar i Dduw adnewyddu'r teimlad o berthyn i'n gilydd yng ngalon pob un ohonom,

**Yr Oedfa Ddigidol**

Cyflwynwyd yr oedfa gan ein Gweinidog. Esboniodd fel mae llawer yn colli'r cyfle i ganu moliant i Dduw mewn capeli ac eglwysi ar hyn o bryd ac mai'r emyn fyddai thema'r oedfa hon. Darllenwyd rhan o Gân o Fawl i Dduw ar y dechrau (Salm 95: 1-7) gan Emyr Waters (Bancyfelin) a chyflwynwyd Gweddi gan Lowri Powell (Cana). Yna clywsom bedwar o aelodau'r Priordy'n dewis eu hoff emyn gan roi rheswm am hyn. Cawsom wybod ychydig hefyd am awduron yr emynau, perthnasedd y geiriau a'r briodas rhyngddynt a'u tonau cyn clywed datganiad o bob un ohonynt. Y pedwar a ddewisodd yr emynau oedd y Dr Huw Michael (*Iesu Iesu rwyt ti'n ddigon* gan Bantycelyn - *Caneuon Ffydd* 220), y Dr Myfanwy Jones (*Rho im yr hedd na ŵyr y byd amdano* gan Elfed - *Caneuon Ffydd* 787), Rhian Mair Evans (*Fy Nhad o'r nef, O gwrando 'nghri* gan Moelwyn – *Caneuon Ffydd* 691) a'r Dr Llinos Roberts (*Glân gerwbiaid a seraffiaid* gan Richard Mant cyf. Alafon – *Caneuon Ffydd* 30). Diolch i bob un ohonynt am ein hysbrydoli gyda'u sylwadau.

**Dydd Sul 24 Ionawr 2021**

**Cymdeithas a Gweddi**
Bu sgwrsio difyr gyda'r eira a'r brechlyn yn cael digon o sylw ynghyd â llawer o dynnu coes a hwyl diniwed! Cafwyd cyfle hefyd i glywed am hynt a helynt aelodau'r Ofalaeth, yn enwedig y rhai sy'n dost ac yn galaru, ac i gofio amdanynt. I gloi'r cyfarfod, dewisodd Eirlys Jones ddarllen Salm 121- fersiwn *Y Beibl Cymraeg Newydd* (*Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd)* cyn i'n Gweinidog gynnig gair o weddi.

**Yr Oedfa Ddigidol**
Roedd naws ryngwladol i'r oedfa hon a hynny'n briodol iawn a ninnau newydd ddathlu'r *Wythnos Weddi am Undod Cristnogol*. Cafwyd cyfraniadau gan ffrindiau o wledydd a chvfandiroedd eraill ac er ein bod yn bell oddi wrth ein gilydd yn gorfforol roedd y dechnoleg newydd yn ein huno'n ysbrydol. Mae'r ffrindiau hyn yn gwrando ar wasanaethau digidol ein Gofalaeth yn gyson. Darllenodd Y Parchedig Siôn Gough Hughes, Gweinidog Eglwys Gymraeg Melbourne (ble treuliodd Beti-Wyn gyfnod ychydig yn ôl) adnodau o ddwy salm (Salm 95:1-7; Salm 113: 1-3), a Hefina Phillips (Canada) o'r Testament Newydd (Ioan1:1-9; Mathew 5:3-16). Cyflwynodd Mari Morgan (Yr Unol Daleithiau) weddi, a Jane Fallon (Iwerddon) a Gaynor Eastwood (Dubai) emynau. Yn ei myfyrdod cydiodd ein Gweinidog yn thema Diwrnod Cofio'r Holocost eleni (27 Ionawr) sef '*Byddwch yn oleuni yn y tywyllwch'*. Crefydd y Wawr yw Cristnogaeth ac mae Duw yn Iesu yn ein hannog i lewyrchu Ei oleuni yng nghanol tywyllwch ein dyddiau er mwyn creu presennol a dyfodol gwell.

**Dydd Sul 31 Ionawr 2021**

**Cymdeithas a Gweddi**
Unwaith eto ein braint oedd cael mwynhau cwmni'n gilydd. Cofiwyd am aelodau a chyfeillion sy'n gwella ar ôl anhwylder ac am deuluoedd sy wedi profi colled. Clywsom gan ein Gweinidog fod Dydd Mawrth (2 Chwefror) yn ddiwrnod cofio Cyflwyno'r Arglwydd Iesu yn y Deml a darllenodd adnodau yn yr Efengyl yn ôl Luc am hynny. Diweddodd drwy gyflwyno gweddi bwrpasol o C*ant a Mil o Weddîau* wedi iddi ddweud gair neu ddau o werthfawrogiad am gyfraniad golygydd y gyfrol, y Parchedig Ddr Edwin C Lewis a gollwyd yn ddiweddar.

**Yr Oedfa Ddigidol**

Go brin y gallai'r Gweinidog fod wedi dewis thema a fyddai'n gweddu'n well i'r Sul hwn!  Eira oedd y thema ac roedd yr eira'n disgyn yma yng Nghaerfyrddin ar yr union amser y rhyddhawyd yr oedfa! Diolch i Jac Thomas a Tomos Morgans am dynnu'n sylw at adnodau am eira yn y Beibl, er enghraifft yn Llyfr y Diarhebion, Llyfr y Salmau, Llyfr Eseia a Llyfr y Datguddiad.  Bu'r eira hefyd yn thema i weithgarwch ein plant yn yr Ysgol Sul – fel y gwelwch mewn man arall yn y Papur hwn a hyfryd oedd gweld lluniau ohonynt yn mwynhau yn yr eira. Seiliodd ein Gweinidog ei myfyrdod ar adnod yn Llyfr Job - *A fuost ti yn ystordy'r eira?* Enw arall ar ystordy yw Tŷ Trysor ble mae Duw yn storio'r eira i'w ddefnyddio pan fo'r angen yn codi.  Mae gwersi i'w dysgu drwy drysor yr eira. Fel mae'n darparu'r eira, mae Duw'n darparu popeth 'at raid dynol ryw', yn ein hystyried ni i gyd yn unigryw a gwerthfawr fel pob pluen eira, ac yn ein cyfnerthu - er mor fach ydyn ni, fel y bluen eira leia - i gyflawni pethau mawr.  Dydyn ni, fel yr eira, ddim yn para am byth ond ein her tra ydym ar y ddaear yw gadael i Dduw weithio trwom i'n helpu i gyflawni'r hyn a allwn.  Cyflwynwyd y weddi gan Elin Wyn.



## CWRDD GWEDDI DYDD GŴYL DEWI

**Nos Lun, 1 Mawrth 2021 am 8 o'r gloch**

**Dewch i ddathlu Gŵyl Dewi gyda gweddi, emyn neu ddarlleniad, neu dewch i wrando'n unig. Dim pwysau ar neb i gyfrannu. Eich cwmni sy'n bwysig i ni.**



***Byddwch yn derbyn y ddolen ar gyfer y cyfarfod hwn mewn da bryd***

**AR Y WE:    www. priordy.org**  *(yn cynnwys Papur Priordy)*

# CANOLFAN HEOL AWST
# EGLWYS Y BEDYDDWYR
# SAESNEG
# CAERFYRDDIN

| | | |
|---|---|---|
| ***Phil Stephenson***<br>***Cadeirydd*** | ***Janet Mock***<br>***Ysgrifennydd*** | ***Dianne Stephenson***<br>***Trysorydd*** |

**Annwyl Ffrindiau**

Ar ran Canolfan Galw-i-Mewn Heol Awst hoffem ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniad caredig yn y Priordy at ein cludfwydydd rhad ac am ddim a baratowyd ar gyfer Dydd Nadolig.

Mae’n diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a’ch cyfraniad unwaith eto.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Yn gywir

**Phill Stephenson**
**Cadeirydd**

**Dianne Stephenson**
**Trysorydd**

***Llythyr a dderbyniodd Adrian Evans, ein Trysorydd, yn ddiweddar***



***Fel y nodwyd yn ein rhifyn diwethaf, casglwyd £200 mewn casgliad rhydd ar Suliau***
***29 Tachwedd a 6 Rhagfyr 2020.***
***Diolch eto i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw’r cyfrifon.***




**Papur Priordy'n cofio….**



## GWLADYS MARION EAMES (1921-2007)

Mae **Marion Eames** yn cael ei gosod yn rheng flaenaf nofelwyr ein gwlad. Daeth i amlygrwydd mawr yn dilyn




cyhoeddi'i nofelau hanesyddol **Y Stafell Ddirgel** (1969) a'i dilyniant **Y Rhandir Mwyn** (1972). Cawsant eu haddasu ar gyfer y teledu gan y BBC a'u cyfieithu i'r Saesneg dan y teitlau **The Secret Room** (Margaret Phillips - 1975) a **Fair Wilderness** (Elin Garlick 1976).





Mae *Y Stafell Ddirgel,* sydd wedi'i lleoli'n rhannol yn Nolgellau, yn dilyn profiadau'r Crynwr Rowland Ellis a sefydlodd y gymuned Gymreig ym Mhensylfania ar ôl cael ei orfodi i adael Cymru oherwydd erledigaeth crefyddol yn ystod teyrnasiad Siarl 11. Mae *Y Rhandir Mwyn* yn disgrifio helyntion y Cymry ar ôl iddynt ymfudo i Bensylfania, gan obeithio y byddent yn osgoi'r erlid a fu arnyn nhw yng Nghymru.

**Ganed Marion Eames gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn ar 5 Chwefror 1921** i rieni Cymraeg ym Mhenbedw ar Lannau Merswy a'i chodi er yn bedair oed yn Nolgellau. Mae'n debyg mai ychydig o Gymraeg oedd ganddi cyn dod i Feirionnydd. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Dr Williams yn Nolgellau cyn gadael yn 16 oed a chael swydd yn Llyfrgell y Sir, Dolgellau. Dyma pryd y dechreuodd ymfalchïo yn ei Chymreictod ac ymddiddori mewn llenyddiaeth Gymraeg. Bu wedyn yn llyfrgellydd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth am ddwy flynedd a dyna pryd y daeth yn rhugl yn y Gymraeg. Wedi hynny, dychwelodd i

Ddolgellau yn asiant gwleidyddol dros Blaid Cymru am rai blynyddoedd cyn cychwyn ar ei gyrfa mewn newyddiaduraeth, yn olygydd papur lleol *Y Dydd* yn y dref.

Roedd Marion Eames yn gerddor dawnus a gwireddodd ei breuddwyd o ddyddiau ysgol pan gafodd ei derbyn i Ysgol Gerdd y Guildhall yn Llundain i astudio'r piano a'r delyn. Pan oedd yn Llundain cwrddodd â'r newyddiadurwr a'r Crynwr Griffith Williams a phriodi ym 1955. Buont yn byw yn Pimlico cyn symud i Gaerdydd lle cafodd Marion Eames swydd yn gynhyrchydd radio gyda'r BBC nes iddi ymddeol yn 1980. Roedd hi hefyd yn un o sgriptwyr cynnar yr opera sebon *Pobl y Cwm*. Bu'n byw yn ddiweddarach yn Aberystwyth cyn dychwelyd i Ddolgellau.

Ei nofelau eraill yw **I Hela Cnau** (1978) am rai a ymfudodd o Gymru i Benbedw yn oes Fictoria, **Y Gaeaf Sydd Unig** *(1982)* i gydfynd â gweithgareddau i nodi saith canmlwyddiant lladd Llywelyn Ein Llyw Olaf, **Seren Gaeth** (1985) yn ymwneud â hanes priodas fer Morfudd Llwyn Owain y cerddor ag Ernest Jones, cofiannydd Sigmund Freud a hefyd **Y Ferch Dawel** (1992) am un a fabwysiadwyd yn blentyn yn mynd i chwilio am ei mam naturiol ac a ffilmiwyd ar gyfer S4C. Cyhoeddodd nofelau i blant ac mae ganddi gyfrol Saesneg ar lenyddiaeth Cymru ar gyfer y di-Gymraeg, sef **A Private Language?** (1997).




Derbyniodd radd er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn gydnabyddiaeth am yr hyn a gyflawnodd. Un sy'n trafod ei bywyd a'i gwaith yw Richard R Evans yn y gyfrol **Marion Eames** yn y gyfres **Llên y Llenor** (2004).




Bu farw yn Nolgellau ar 3 Ebrill 2007. Claddwyd ei llwch ym medd ei gŵr, ym Mynwent yr Eglwys ym Mhentywyn, Sir Gâr, y pentref ble cafodd yntau'i godi.

Dywedodd Marion Eames un tro fod diddordeb mawr ganddi mewn pobl a hynny'n arwain at ddiddordeb mewn crefydd. Ychwanegodd: ***"Perthynas dyn â'r anfeidrol - a thrwy hynny â'i gyd-ddyn - yw'r unig beth o bwys yn y pen draw.'***

# CWRDD GWEDDI DECHRAU'R FLWYDDYN





# CAPEL COFID

***"Gwyn eu byd y rhai sy'n trigo yn dy dŷ,***
***yn canu mawl i ti'n wastadol."***
**(Salm 84: 4)**

**Ynghlo mae'r drws; gwaherddir ei ddatgloi**
**Gan fod rhyw aflwydd heintus yn y wlad,**
**Ac ar y Sul ni feiddia'r saint ymroi**
**I gynnal oedfa seml o fawrhad.**
**Mudandod sydd o'i fewn, fel pe'n rhagweld**
**Yr oes pan na fydd angen man i gwrdd,**
**A'r capel megis llestri nain mewn seld,**
**Yn hardd, ond heb eu rhoddi ar y bwrdd.**
**Mor wag yw'r lle. Ond dichon y daw budd**
**O gyfyngderau caeth y misoedd blin:**
**Rhyw hiraeth dyfnach am feddiannu ffydd,**
**A phrofi gwerth y Gair a'r cwpan gwin:**
**Yr ymwybyddiaeth pa mor od yw'n byw**
**Heb uno yng nghymdeithas teulu Duw.**



**Diolch yn fawr iawn am ganiatâd i gyhoeddi'r soned hon o waith y Parchedig Ddr Demond Davies. Ymddangosodd yn gyntaf yn Seren Cymru (Rhif 1 Ionawr 2021) a gwerthfawrogwn y cyfle a gawn ni yn awr i'w darllen.**

**Anfonwn ein cofion cynnes hefyd at Desmond ac Eirianwen gan hyderu eu bod yn cadw'n iach a diogel yn ystod y cyfnod anodd hwn.**

# NEGES O SELAND NEWYDD

## MARGOT GRIFFITH



Diolch am gyfle i esbonio sut y des i fyw yn Seland Newydd a'm profiadau yma..

Rwy'n dod o Lan-y-fferi'n wreiddiol. Es i Ysgol Gynradd Llansaint ac yna i Ysgol Ramadeg Y Frenhines Elisabeth – a dw i'n dal i gwrdd â'r merched oedd gyda fi yno pan wyf yng Nghymru.

Aeth fy ngŵr Alun a fi i briodas fy ngefaill, Jano Richards, yn Wellington ym 1972. Roedd fy mrawd, Humphrey, eisoes yn Seland Newydd oddi ar 1965. Penderfynon ni sefyll yno - roedd hi'n ddigon rhwydd y pryd hynny. Byddai'n hollol wahanol nawr!

Mae rheoliadau Covid-19 yn Seland Newydd yn dodi pawb mewn cwaratin am bythefnos ar ôl cyrraedd. Mae'n ofynnol hefyd i bawb sy'n dod yma gael prawf negyddol cyn gadael y Deyrnas Unedig. Mae bywyd yma ar Lefel 1 a phawb yn byw'n naturiol ond yn gwisgo mwgwd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Hedfanais o Wellington i Auckland ar 19 Rhagfyr 2020, hyd 6 Ionawr 2021 at Siân, fy merch, i'w helpu i edrych ar ôl Huw, fy ŵyr sy'n wyth oed, dros wyliau'r haf. Dw i'n gallu cwrdd â ffrindiau'n ddigon rhrwydd unrhyw bryd, a mynd i siopa hefyd ond i mi gofnodi ble bues i, gyda phwy am pham drwy gynllun 'Olrhain a Thracio'. Mae'r gymuned yn rhydd o Covid-19.



Cefais afael ar wasanaethau Beti-Wyn yn y Priordy drwy'r **Dr Mari Morgan, Pensylfania**. Dw i'n eu mwynhau'n fawr yn enwedig gwrando ar lais swynol Beti-Wyn a neges ei phregethu, a chlywed y Gymraeg a'r emynau. Cefais lawer o bleser hefyd o weld fidio o Glan-y-fferi, Llansteffan a'r Afon Tywi. Teimlas hiraeth wrth feddwl am bawb yng Nghymru dan gyfyngiadau symud.

Cwrddais â Mari yn Wellington flwyddyn cyn iddi ddod â Chôr Cymreig Gogledd America i berfformio yn Seland Newydd. Daeth fel Arweinydd Gwadd i Gymanfa Genedlaethol 2016 yn Eglwys Gadeiriol Wellington St Paul. Llwyddodd i ddenu canu arbennig.

Rwyf yn llywydd *Welsh Gymanfa Ganu Seland Newydd Inc* a *Cymdeithas Gymreig Wellington Inc.* Mae Cymanfa bob dwy flynedd. Dechreuodd yn Auckland ym 1991, ac yna cafodd ei chynnal yn Wellington, Rotorua a New Plymouth. Roedd y Gymanfa i fod yn Auckland yr Hydref diwethaf ond dododd Covid-19 ddiwedd ar hynny!


Ar y funud, mae Cymdeithas Gymreig Wellington yn paratoi ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Byddwn yn codi Baner y Ddraig Goch am 8 y



bore ar Ddydd Llun, Mawrth y Cyntaf (7 nos Sul yng Nghymru!). Bydd yr Uchel Gomisiynydd Laura Clarke yn ein croesawu i Breswylfa'r Comisiwn Prydeinig ble cawn fara brith, pice ar y maen a phaned. Cynhelir gwasanaeth yn **Eglwys St Alban, Pauatahanui a**m 11 ar Ddydd Sadwrn 27 Chwefror 2021 gyda Chôr Māori Wellington yn cymryd rhan. Mae'r gwasanaeth hwn yn dairieithog - Cymraeg, Māori, a Saesneg. Yn y cinio yng Nghlwb Cychod Plimmerton byddwn yn cyhoeddi a gwobrwyo enillwyr gwahanol gystadlaethau - *Cwpan Raphael Jones* am stori fer, *Cwpan Ellen Griffiths* am farddoniaeth, a *Tarian Llechi* am bice ar y maen. Ym Mis Chwefror bydd neges mewn tair iaith yn cael ei danfon i gymdeithasau tylwyth dros y byd.



**Yr Ustus Anrhydeddus Susan Thomas**, yw noddwr y Gymdeithas a'i thad, y Deon Emeritws



James Thomas o Langynog, wedi bod yn noddwr hefyd. Byddwn yn meddwl dros benwythnos ein Gŵyl am y Cymry dros y byd i gyd, ynghyd â'n hiaith a'n canu, ein gwlad a'i phobl.

Daliwch ati â'r gwasanaeth wythnosol Beti-Wyn. Mae'n gwneud byd o wahaniaeth i'r wythnos!

***COFION*** atoch i gyd a bendithion cynnes.

# GWYNFYDAU'R FLWYDDYN NEWYDD



Gwyn ein byd ar drothwy'r flwyddyn newydd os gafaelwn yn dynn yn llaw Crist a gadael iddo Ef ein harwain gam wrth gam drwy ansicrwydd ei dyddiau.

Gwyn ein byd bob bore pan godwn os gallwn ddiolch yn llawen am gyfle newydd i wneud y byd hwn yn lle gwell i fyw.

Gwyn ein byd ar ddechrau pob wythnos os gallwn droedio i'r cysegr i fod yng nghwmni Crist a chael ein llenwi â'i dangnefedd fel y gallom gario allan ein gwaith a'n dyletswyddau beunyddiol yn fodlon a diflino.

Gwyn ein byd drwy dreigl ei misoedd os byddwn yn gallu dangos cariad Crist yn ein hymwneud ag eraill.

Gwyn ein byd pan ddêl pob tymor yn ei dro os gallwn ganu cân newydd o foliant am y greadigaeth.

Gwyn ein byd mewn cyfnod o brawf os gallwn sefyll yn gadarn dros Grist a'i egwyddorion.

Gwyn ein byd ar adeg o rwystredigaeth pan fyddwn yn teimlo bod Crist yn ein harwain i gyfeiriadau na ddewisom oherwydd gallwn fod yn sicr fod Duw yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu.

Gwyn ein byd pan ddaw amser caled i'n rhan os gallwn barhau i ddatgan mai cariad yw Crist a bod ei ofal drosom yn ddiamod.


Gwyn ein byd mewn awr o amheuaeth os gallwn brofi presenoldeb Crist a chynhesrwydd ei gyfeillgarwch.

Gwyn ein byd mewn dyddiau o wendid os gallwn deimlo breichiau Crist yn ein cynnal.

Gwyn fydd ein byd pan fydd hirlwm Rhagfyr yn tynnu'r flwyddyn at ei therfyn os gallwn edrych yn ôl gan wybod i ni gerdded a mwynhau Ei gwmni a phrofi'n helaeth o'i nerth a'i ddiddanwch.

***Diolch i Eirian Dafydd (am Wynfydau'r Flwyddyn Newydd. Maent yn ddilyniant i'r Gwynfydau a ymddangosodd yn ein rhifyn diwethaf. Mae Eirian a'i phriod, Y Parchg Gwilym Dafydd, yn ddau o ddarllenwyr ffyddlon Papur Priordy.***




Sion o Awstralia
Hefina a Ganada
nor o Dubai
Mari o Unol Daleithiau America
Jane o De'r Iwerddon

## O GAWL A LOBSGOWS I DDEIFIO GWALLT!

### *Paned a Sgwrs - 6 Ionawr 2021*



***WEL***, mae **Paned a Sgwrs** y Priordy dros Zoom yn gallu bod yn llawn hwyl, gyda'r sgwrsio'n symud o un pwnc annisgwyl - ond difyr - i'r llall!

Yn ein sesiwn diwethaf, fe'n hatgoffwyd ei bod yn dymor y cawl a'r lobsgows! Mae'r naill a'r llall yn gymysgedd arbennig a wreiddlysiau a chig (oen neu eidion) – er nad oes cig bob tro ychwaith. Mae'n bryd syml a hawdd i'w baratoi, yn flasus, yn llawn maeth ac yn twymo'r corff cyfan! Un a fu'n rhaid gadael y sgwrsio dros Zoom am funud neu ddwy er mwyn rhoi'r cyffyrddiad olaf i'r cawl ar y ffwrn yn Rhodfa Mostyn oedd Sulwyn Thomas, Llywydd Swyddogion yr Ofalaeth. Gŵr amryddawn, mae'n amlwg!

Ar **BBC Cymru Fyw** ym mis Tachwedd 2020 eglurodd yr Athro Ann Parry Owen, Golygydd Hŷn gyda Geiriadur Prifysgol Cymru, darddiad lobsgows a chawl. Mae'n ddiddorol dros ben. Meddai, gan ddechrau gyda lobsgows – y fersiwn ogleddol:

*Cysylltir y gair yn draddodiadol â phorthladd Lerpwl, a'r ail elfen sgows yr un gair â'r Saesneg scouse, y gair ar lafar i ddisgrifio rhywun sy'n hanu o Lerpwl. Mae'n debygol iawn mai gair o dras Sgandinafaidd yw lobsgows, a'i fod yn gysylltiedig â lapskaus, saig hynod o debyg sy'n boblogaidd yn Norwy. Cig eidion a geir gan amlaf yng nghawl y de (weithiau cig oen), ac mae hanes y gair hwn eto'n ddiddorol. Yr un gair yn y pendraw yw cawl â kale ac elfen gyntaf coleslaw a oedd yn golygu bresych yn wreiddiol, cyn datblygu i olygu llysiau yn fwy cyffredinol. Yr un gair a welir hefyd yn yr enw Porth-cawl, enw sy'n awgrymu i'r porthladd hwnnw fod yn llawn cawl, neu fresych y môr, sea kale, ar un adeg yn ei hanes!*

Wrth i ni sôn am gawl dyma'r Dr Huw Michael, ein Hysgrifennydd Ariannol, yn dyfynnu o'i gof y llinellau hyn o *Pwllderi,* cerdd dafodieithol o waith Dewi Emrys sy'n sôn am gawl:

**Cewch lond y lletwad, a'i llond hi 'lweth,**
**A hwnnw'n ffeinach nag un gimisgeth;**
**A chewch lwy bren yn y ffiol hefyd,**
**A chwlffyn o gaws o hen gosin hifryd**."

Mae Huw yn ymddiddori'n fawr yn nhafodiaith Gogledd Sir Benfro - tafodiaith ei rieni ac yntau i raddau – a hefyd mewn cawl!

A wyddech chi fod **Lobscows** yn deitl i gasgliad o ddwsin o alawon gwerin gan Bethan Bryn? Wel, os yw'r alawon hanner cystal â'r pryd bwyd, yna maen nhw'n rhai go arbennig!




A **Dyddiau Lobsgows yn Lerpwl** yw teitl cyfrol Iorwerth Jones, un o gyn Ysgrifenyddion Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a chyn weinidogion Capel Als, Llanelli, a fagwyd yn y ddinas honno – a hynny ar fwyd plaen ond bod digonedd ohono bob tro. Meddai am lobsgows a fyddai'n bryd ar ei ben ei hun lawer tro:

*Y tatws oedd y brif elfen, gyda darn rhad o gig, neu gig dros ben o bryd blaenorol, moron wedi eu malu'n fân, a nionyn neu ddau. Nid wyf yn meddwl fod cyfartaledd penodol i'r elfennau. Dibynnai'r gymysgfa ar yr hyn oedd ar gael. Heb gig, lobsgows troednoeth fyddai (blind scouse yn Lerpwl), ond ni chofiaf hwnnw yn ein tŷ ni.*

Am ryw reswm neu'i gilydd dyma'r sgwrs yn troi wedyn at drin gwallt a'r gwragedd yn arbennig yn gresynu fod y salonau gwallt ar gau yn ystod y clo! A dyma'r dynion yn dechrau sôn am arferion torri gwallt a chymeriadau fel Jack y Barbwr Tymbl Uchaf! Roedd ambell un hefyd yn cofio'r hen arfer o ddeifio (singe) gwallt!

Mae'r Athro Peter Wyn Thomas yn esbonio mai un o eiriau sy'n perthyn i'r gogledd-orllewin yn gyffredinol yw deifio. Nid y deifio y byddwch yn ei wneud wrth nofio – gair benthyg ydy hwnnw o'r Saesneg 'dive'. Deifio'r gogledd-orllewin yw'r llosgi sy'n gallu digwydd, er enghraifft, i ddillad. wrth eu smwddio. Gair Celtaidd yw'r deifio yma. A dyma'r gair y mae **Geiriadur yr Academi** yn ei gynnig am *singe* neu losgi ymaith flew wrth drin gwallt.

Mae'r arfer o ddeifio'n un hynafol iawn. Dechreuodd yn y Dwyrain Canol cyn ymledu i Ewrop. Byddai barbwyr yn defnyddio tapr â than arno i ddeifio pen pob blewyn o wallt a dorrwyd. Yr hen gredo oedd bod hylif mewn gwallt ac y byddai'n gwaedu wrth ei dorri a bod deifio'n gallu atal hyn drwy selio pen pob blewyn a chau'r ffoligau. Mae deifio'n llawer llai cyffredin heddiw ond bod rhai barbwyr yn parhau i

ddefnyddio'r hen dechneg, yn enwedig Tyrciaid, i wneud y toriad gorffenedig edrych yn fwy llyfn a thrwsiadus.

Wel nawrte, gyfeillion, clywsom ni yn ystod y sgwrsio mai un sy wedi cael deifio'r blew yn ei glustiau wrth ymweld â barbwyr o Gwrdistan yma yng Nghaerfyrddin yw Dennis Jones, Ysgrifennydd Cyfamodi'r Priordy. Mae Dennis yn canmol y driniaeth yn fawr a ninnau'n falch o ddweud fod ei glustiau'n dal yn gyfan!

Mae angen y gofal mwyaf wrth ddeifio, gwallt, fel y daeth yn amlwg pan glywson ni hanesyn bach gan Gwynfor Davies sydd, gyda Janet ei wraig, yn argraffu *Papur Priordy*. Torrwr gwallt oedd ei Wncl John yn byw yn Henllan, Ceredigion. Byddai'n mynd o Henllan hyd at Bentre-cwrt a Llandysul ac ymlaen i Bencader a Llanpumsaint fwy neu lai'n wythnosol i dorri gwallt. Byddai wrthi hefyd yn gweithio o'i gartref yn 11 Teras y Rheilffordd, neu Railway Terrace ar lawr gwlad, mewn sied fach bren yn yr ardd. Marged oedd enw'i wraig ac roedd hithau a'r ferch, Hannah Mai yn cadw siop yn y pentref. Un tro pan oedd y sied yn llawn o ddynion yn aros am doriad ac Wncl John yn gwylltu i dorri cymaint o walltiau'r cwsmeriaid ag y gallai fe gafodd dipyn o anffawd! Wrth ddeifio gwallt un cwsmer, dechreuodd fynd ar dân. Cafwyd hyd i fwced o ddŵr ar fyrder o No 11 i ddiffodd y tân! Ar ôl y digwyddiad hwn daeth gyrfa Wncl John fel barbwr i ben. Dywedodd Margaret ei wraig a Hannah Mai wrtho am roi'r gorau iddi gan ei fod ymhell dros oedran ymddeol!



***IE'N*** wir! **Paned a Sgwrs** hynod o gyffrous a hwyliog. Diolch i'n Gweinidog am ddod â phethau i fwcl yn drefnus ar y diwedd!! Does wybod beth fydd pynciau'r sgwrsio yn ein cyfarfod nesaf!! Beth am ymuno â ni? Ydych chi'n gêm?!

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com**

# CRONFA CANT A HANNER

## Bydd Capel y Priordy'n dathlu'i ben-blwydd yn 150 ym Mis Mai eleni.


Mae'r diaconiaid ar hyn o bryd yn ceiso meddwl am wahanol ddulliau o ddathlu'r achlysur. Ry'n ni'n cael ein cyfyngu gan yr amgylchiadau presennol, wrth reswm, ond mae nifer o syniadau gennym i'w gosod ger eich bron. Ryn ni'n ymchwilio iddynt a chewch glywed amdanynt yn ein rhifynnau nesaf.

Un awgrym pendant - a oedd wrth fodd pawb yn ein Cwrdd Diaconiaid diweddar - yw sefydlu cronfa arbennig, **Cronfa Cant a Hanner** a fyddai'n gweithredu rhwng Mai 2021 a Mai 2022.  Y bwriad fyddai gwneud ymdrech arbennig dros y flwyddyn i hybu elusennau lleol, yma yng Nghaerfyrddin – hyd at bump ohonynt. Mae hyn yn apelio'n fawr atom gan y byddai'n dathlu yn gyfrwng i ni helpu eraill yn lleol. A gwyddom, wrth gwrs, fod llawer o elusennau lleol mewn sefyllfa go anodd ar hyn o bryd.


Hoffem ofyn am eich help, os gwelwch yn dda. Tybed a fyddech yn gallu awgymu elusennau lleol y byddem yn gallu'u cefnogi a rhoi gwybod i ni mor fuan â phosibl?

Byddai hynny'n help mawr i ni osod CRONFA 150 y Priordy ar waith. Mae croeso i chi gysyllu â'n Gweinidog neu un o'r diaconiaid gyda'ch awgrymiadau.

# YSGOL SUL


zoom.us
Meeting
View
Edit
Window
Help
Zoom Meeting
View
Jaynewoods
Beti Wyn James
Caleb,Gwilym ac Osian...
Osian Hayes
MeredyddaHeleddarhys
Bryan Stephens
Anna Jones
Greta
Beca a Luned
BJ Howells
Mwynwen Jones
Steffan Davies
Ask to Unmute
Enlli ac Alffi
Cadi ac Ifan
Heledd Tomos
Eirlan Lewis
Llinos Jones
Mute
Stop Video
Security
Participants
Chat
Share Screen
Record
Reactions
End


Ysgol Sul
Ionawr 10 2021


Ysgol Sul
Ionawr 10 2021

# Ifanc@Priordy

## Ysgol Sul



Rydym yn dal i gwrdd dros Zoom! Dim sôn am ddychwelyd i'r Capel ar hyn o bryd. Ond gwyliwch y gofod!

### Lili Wen Fach ac Antifreeze

O Lili wen fach, o ble daethost di?
A'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri?
Sut y mentraist di allan drwy'r eira i gyd?
Nid oes blodyn bach arall i'w weld yn y byd!



Ydy chi'n gyfarwydd â'r pennill bach hwn?

Tybed a ydych wedi sylwi bod y Lili Wen Fach wedi ymddangos eto eleni, drwy'r eira a'r oerfel! Mae rhai yn dweud bod y Lili Wen Fach yn flodyn swil oherwydd ei bod yn edrych fel petai'n cuddio ei hwyneb!




Ond sut yn y byd mae'r blodyn bach gwan hwn yn medru byw drwy'r eira? Wel, mae'r ateb yn syml … oherwydd bod math o antifreeze ynddo!

Rydym y rhoi antifreeze yn injan y car er mwyn ei stopio rhag rhewi. Mae protein arbennig yn y Lili Wen Fach sy'n stopio'r blodyn rhag rhewi hefyd. On'd yw byd natur yn rhyfeddol!

## Chwilair yr Eira!

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | Y | A | N | G | E | L | Y | W | O | R | T | I | M |
| C | G | A | Y | S | W | C | A | P | O | H | A | Y | L |
| I | L | S | W | S | M | E | N | Y | G | A | A | S | D |
| G | Y | F | G | Y | L | C | D | D | Y | W | Y | T | E |
| G | D | E | L | S | O | I | T | L | N | L | R | A | D |
| L | O | S | I | O | C | L | E | D | P | O | E | T | H |
| A | D | E | D | D | R | E | C | D | R | R | U | P | L |
| E | S | E | G | A | E | A | R | A | W | H | C | T | G |
| F | F | R | A | G | S | I | L | E | W | U | N | D | F |
| A | P | R | E | A | D | E | I | L | A | D | U | P | E |
| O | L | E | A | A | L | R | H | E | W | S | G | I | O |
| I | U | O | F | G | D | M | O | R | O | N | C | P | E |
| G | E | L | N | E | C | Y | N | N | E | S | D | O | P |
| Y | N | A | S | A | D | Y | N | E | I | R | A | L | T |

SIOCLEDPOETH
SGARFF
MENYG
OER
CERDDED
RHAW
SGIO
MORON
GWYN
PUR
PLUEN
TYWYDD
CYNNES
SLED
CHWARAE
DYNEIRA
COT
GAEAF
WELIS
CAP
GLAN
ADEILADU
RHEW
ANGEL

**Gweddi**
Mae pob pluen eira’n unigryw…
ac mae Iesu’n unigryw hefyd.
Helpa ni i wrando arno
ac i’w ddilyn.
**Amen**



Tan y tro nesaf, Cadwch yn ddiogel ac yn iach.
Hwyl, **Beti-Wyn**




NEW YORK




Mor unigryw a phluen eira
Gweddi
O Dduw, diolch i ti am fy nghreu mor unigryw a phluen eira.
Diolch fod bob un ohonom mor arbennig yn dy olwg di, a bod gennyt waith ar ein cyfer ni i gyd yn y byd.
Ar ddechrau blwyddyn newydd, helpa ni i addunedu i wneud ein gorau bob amser.
Amen







**Papur Priordy'n sgwrsio â**

## CHRISTINE DAVIES



**PP: Rydych chi wedi ymgartrefu yn Iwerddon erbyn hyn Christine. Ym mha ran o'r wlad ydych chi'n byw a phryd aethoch chi ynp?**
**CD***: Es i ar wyliau gyda ffrind i Iwerddon ym mis Gorffennaf 2002. Gofynnais iddi pan o'n i'n cynllunio'r daith a oedd unrhyw ran o'r wlad y byddai'n hoffi ymweld â hi. Atebodd Tipperary gan fod teulu David, ei diweddar ŵr, yn dod o'r fan honno. Felly dyma fi'n bwcio tair noson yn nhref Tipperary fel rhan o'r gwyliau. Ro'n i'n meddwl y bydden ni'n ymweld â'r mynwentydd i chwilio am aelodau'r teulu. Pan oedden ni ar y bws yn teithio o Wexford dyma fi'n gofyn iddi a oedd hi'n gwybod ym mha fynwent roedd tad David wedi'i gladdu. Atebodd ei bod - yng*




*Nghaerfyrddin!! Buom yn piffian chwerthin am hynny, rhaid dweud! Ar ein noson gyntaf buom mewn gwesty yn gwrando ar gerddoriaeth draddodiadol. Daethom yn ffrindiau ag un o'r ffidlwyr ac ar ddiwedd y tri niwrnod trefnodd hi i ni aros mewn lle gwledig a diarffordd ymhell o bobman o'r* ***enw Jim of the Mill****. Roedd yn edrych yn debyg i fwthyn heb unrhyw arwydd arno. Byddai'r gwesty'n agor ar un noson yr wythnos a phobl yn heidio yno o bob rhan o'r byd i fwynhau cerddoriaeth draddodiadiol, adrodd straeon a chanu. A dyna lle cwrddais i â Seamus. Mae'n byw yng nghartref y teulu, bwthyn bach yng nghanol y wlad, saith milltir o Thurles yn Swydd Tipperary. Mae'r gweddill yn hanes!!*



**PP: Sut ydych chi'n mwynhau bywyd yn Iwerddon?**
**CD:** *Dw i'n mwynhau byw yna'n fawr iawn er i mi gael dipyn o sioc ar y dechrau. Yr unig draffig ro'n i'n ei weld oedd topiau tractorau!*

*Mae bywyd yn hamddenol iawn. Dyw'r rhan fwyaf o'r siopau yn y dref ddim yn agor tan ddeg y bore ac mae llawer ar gau ar ddydd Sul. Cyn i mi symud yno yn 2003 ro'n i'n arfer mynd yno ar benwythnosau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Doedd dim car gan Seamus, dim ond tractor. Galla i ddweud wrthoch chi nad oedd hi'n gyfforddus iawn i deithio dwy filltir i westy yn sefyll ar fy nhraed yn ei Leyland! Roedd gweld tractorau wedi'u parcio y tu allan i westai'n eitha cyffredin y dyddiau hynny. Yn 2000, prynodd Seamus garafan a'i thynnu'r tu ôl i'w hoff Leyland dros gan milltir i Doolin, Swydd Clare lle treuliodd fis yn chwarae cerddoriaeth. Aeth Tiny, ei gi Jack Rusell, gydag e hefyd. Mae'n chwarae acordion botwm a melodion yn ôl y glust. Ryn ni'n aml iawn yn mynd gyda'n gilydd i sesiynau cerdd mewn gwahanol rannau o Iwerddon ac wedi gwneud ffrindiau da, rhai ohonynt o Ogledd Cymru. A bydda i weithiau yn cynnig perfformiad o Calon Lân! Mae Seamus wedi chwarae mewn gwahanol fannau ar draws y byd a derbyn croeso da bob amser.*

**PP: Oes rhywbeth rydych chi'n hoffi'n arbennig am y wlad?**
**CD:** *Rwy'n teimlo bod y bobl yn gyfeillgar iawn ac yn ddi-lol. Mae'r bwyd yn sicr yn fwy blasus. Doedden i ddim yn hir yn ennill tair stôn ar ôl mynd yno! Mae gan bron bob gorsaf betrol gownter deli gyda bwyd blasus iawn. Rwy'n mwynhau ymweld â ffrindiau hŷn Seamus. Roedd un ohonyn nhw, Willie Cormack, yn dal i fyw yn y tŷ fferm gwreiddiol gyda tho sinc a'r hen dân tyweirch agored tan yn ddiweddar. Byddai'n arfer â rhoi tatws i ni. Ar ôl eu codi roedd e'n eu gosod mewn pwll ac yn taenu gwellt drostyn nhw. Mae hynny'n f'atgoffa fod* ***Eglwys Gatholig*** *wedi'i chodi'n gyfan gwbl o sinc yn* ***Rearcross*** *sydd tua 15 milltir oddi wrthon ni.*



**PP: Ond rydych chi'n parhau i ddal cyswllt agos â Chaerfyrddin!**
**CD:** *Er fy mod yn caru Iwerddon yn fawr iawn, mae Caerfyrddin yn agos iawn at fy nghalon a byddaf yn parhau i gadw fy nhŷ yma.*

**PP: Fe gawsoch chi'ch codi yn y Priordy. Beth am glywed rhai o'ch atgofion cynnar yn y capel?**
**CD:** *Do'n wir. Roedd fy nhad-cu, David Dyer, yn ddiacon ac yn byw drws nesaf ond un i ni. Buodd fy mam-gu farw ym 1947 cyn i mi gael*


*fy ngeni ac yn ddiweddarach priododd tad-cu wraig wedi cael ysgariad. A dyna'i ddiwedd e fel diacon!! Ond cafodd ei ailbenodi rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Roedd ganddo ddosbarth Ysgol Sul mawr (bu'r darlun ym Mhapur Priordy rai blynyddoedd yn ôl). Roedd e'n masseur neu ddylinwr hunanddysgedig a llwyddodd i wella cannoedd o bobl. Roedd ei ystafell ffrynt fel syrjeri doctor, gyda chadeiriau o gwmpas y lle i gyd. Ar ôl i'r ystafell lenwi byddai pobl yn eistedd ar y grisiau yn aros yn amyneddgar am eu tro. Byddwn wrth fy modd yn mynd yno i sgwrsio â nhw a helpu.*

*Ro'n i'n mynd i'r capel deirgwaith ar y Sul, ran fwyaf gyda Dawn Griffiths, fy ffrind gorau a oedd yn byw drws nesaf. Roedd ei thad-cu, Samuel Jenkins, hefyd yn ddiacon. Byddai'r merched yn eistedd yn y galeri, yr un ochr â'r organ a'r bechgyn gyferbyn. Rhai o'r plant tua'r un oedran â fi oedd Dawn, Royona Rees, Marion Thomas, Janice Jones, Dai Lloyd, Martin Williams, Myrddin Thomas, Ieuan Price (a gollodd ei fywyd yn drist iawn mewn damwain car pan oedd tua 18 oed), Verdi Cole Thomas, Richard Eynon Huws, Robert Davies a Brynmor Evans. Dw i ddim wedi cynnwys y rhai hŷn gan fod Rhian Evans wedi sôn amdanynt eisoes yn y Papur un tro.*

*Roedd Dawn a fi'n gweld y capel braidd yn ddiflas, rhaid dweud ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd i ddiddanu'n hunain yn ystod y bregeth! Dysgon ni'r Wyddor Mud a Byddar a welson ni mewn Dyddiadur Letts a bydden ni'n gallu cyfathrebu â'n gilydd yn y ffordd honno. Dw i hefyd yn cofio Marion Richards (athrawes Ysgol Sul os ydw i'n cofio'n iawn) yn eistedd rhyngon ni i'n cadw rhag chwerthin ond erbyn y diwedd byddem yn llwyddio i'w gwneud hi i chwerthin hefyd! Doedden ni ddim yn mwynhau gwisgo'n dillad Sul gorau – dillad newydd ar gyfer y Pasg a'r Gymanfa - nac ychwaith yn codi i ddweud adnod bob bore Sul. Os nad oeddwn wedi dysgu un newydd, byddwn yn dibynnu ar 'Duw cariad yw'. Byddem yn derbyn stamp i'w osod mewn albwm am ddweud adnod.*

*Byddai Cwrdd Plant unwaith y mis. Roedd yn llawer mwy diddorol – er nad o'n i'n mwynhau cymryd rhan! Mam Iris a Rhian oedd yn gofalu amdanom ac roedd rhaid i ni fyd i North Parade i ymarfer. Roedd hi'n wraig hyfryd, caredig ac amyneddgar iawn. Dw i'n cofio bod yn Angel yn y Gwasanaeth Nadolig yn y Festri ac enillais yr ail wobr am ganu mewn eisteddfod yno. Fy ngwobr oedd darn chwe cheiniog mewn cwdyn arian. Eirwyn Evans (brawd Ann Griffiths) ddaeth yn gyntaf.*

*Ro'n i'n mwynhau mynd i'r Ysgol Sul. Dw i'n cofio pan o'n i tua 10 oed yn cymryd Snowy, fy llygoden anwes wen, gyda fi. Dw i'n gallu clywed Mrs W B Griffiths yn sgrechian hyd heddiw pan dynnais i'r llygoden o'm mhoced! Roedd rhaid i mi gymryd y llygoden adref a chefais stŵr gan mam. Ond chwarae teg, wnaeth Mrs Griffiths ddim dal unrhyw ddig o gwbl ataf!*



*Mae amser wedi newid. Mae plant gymaint yn fwy hyderus heddiw ac yn mwynhau cymryd rhan ac yn ffodus o hyd i gael athrawon Ysgol Sul mor dda, gyda Beti-Wyn wrth y llyw. Mae hi mor ardderchog gyda nhw!*

**PP: Buoch yn gweithio am flynyddoedd yn y dre hefyd o'nd do?**
**CD:** *Do'n wir. Dechreuais i fel Clerc Ymholiadau gyda Chwmni Omnibus Western Welsh yn Heol Las ym 1966 ond caeodd y depo ym Mai 1971. Ym mis Ebrill 1972 cefais swydd fel Swyddog Clerigol gyda'r Rheilffyrdd Prydeinig yn Swyddfa Docynnau Caerfyrddin ble treuliais 30 o flynyddoedd hapus. Gwelais lawer o newidiadau - rhai er gwell a llawer heb fod gystal! Pan ddechreuais i yno doedd dim cyfrifiaduron. Roedd rhaid troi at lyfrau amserlenni wrth ymateb i ymholiadau. A chofiwch, roedd gan bob rhanbarth ei llyfr ei hunan! Roedd gwybodaeth dda o ddaearyddiaeth Gwledydd Prydain yn rheidrwydd! Gwnes i fwynhau helpu pobl â'u teithiau, bwrlwm y swyddfa a chyfeillgarwch fy nghydweithwyr. Cawsom ni lawer o hwyl. Dw i'n parhau i fwynhau cyfeillgarwch fy hen gydweithwyr hyd heddiw ac mae hynny wedi bod yn help mawr i mi yn ystod y pandemig.*

**PP: Beth ydy'r newidiadau mwyaf ydych wedi sylwi arnyn nhw yng Nghaerfyrddin ers symud i Iwerddon?**
**CD:** *Mae llawer wedi newid ers dechrau'r saithdegau – ardal y Porth Tywyll a Heol Goch a'r hen farchnad a daeth Rhodfa Stryd Catrin yn lle'r mart a rhai gwestai ble byddai llawer o gymeriadau lleol y dref a'r gymuned ffermio'n cwrdd. Dw in ofni bod hyn yn effeithio ar gymeriad a hunaniaeth ddiwyllianol unigryw'r dref. Mae Caerfyrddin yn golygu llawer i mi a gobeithio na fydd yn mynd yn rhy debyg i lawer o drefi anamlwg sydd yng Nghymru'r dyddiau hyn!*

**PP: Rydyn ni'n cael eich cwmni yn y Priordy pan ydych chi'n dychwelyd i Gaerfyrddin, Christine ond rydych chi hefyd yn**

**mwynhau dilyn ein gwasanaethau ar-lein o wythnos i wythnos?**
**CD:** *Dw i'n mwynhau dod i'r capel pan ydw i'n gallu a dyw e ddim, diolch byth, yn brofiad diflas o gwbl. Pan ddechreuodd y pandemig - a'r ddau ohonom dros 70 oed - roedd rhaid i ni hunanynysu yn Tipperary. Doedden ni ddim yn gadael y tŷ a threfnodd y gymdogaeth i bobl wneud ein siopa ac yn y blaen. Does dim archfarchnadoedd a 'Clic a Chludo' yn ein hardal ni! Roedd oedfaon Beti-Wyn ar y Sul yn werth y byd i mi ac ro'n i'n edrych ymlaen atynt bob wythnos. Roedd cymryd rhan yn y Cymun yn gysur mawr i mi. Ac wrth gwrs rwy'n parhau i wrando o hyd. Dw i'n mynd i'r Offeren gyda Seamus weithiau. Mae'n ddiddorol a dw i'n mwynhau'n fawr ond dyw e ddim yr un peth rywsut.*



**PP: Rydych chi hefyd yn derbyn Papur Priordy o fis i fis.**
**CD:** *Ydw. Rwy'n gwirioneddol fwynhau darllen y Papur ar lein bob mis. Dw i'n hoffi dala lan â'r newyddion yn y Rhwydwaith ac yn cael llawer o gysur a chryfder ysbrydol o'i ddarllen.*

**PP: Wel, Christine, dymuniadau da i chi am y flwyddyn newydd. Mae'n siŵr eich bod yn edrych ymlaen at rywbeth yn 2021?**
**CD:** *Diolch am eich dymuniadau da ac rwy'n edrych ymlaen at yr amser pan fyddwn ni i gyd yn derbyn y frechlyn a normalrwydd yn dychwelyd a minnau'n gallu mynd o Gymru i Iwerddon unwaith eto. Hoffwn i ddymuno 2021 diogel, iachus a hapus i bawb.*

***Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau Christine.***


**'THE WORST OF TIMES AND THE BEST OF TIMES'**
**Mike Shepherd**
**Caplan ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwlans**
***Cagliad o erthyglau yn ceisio negeseuon cadarnhaol yng nghanol sefyllfa dywyll y pandemig***
**Ar gael yn Gymraeg a Saesneg – o Ebrill / Mai 2021 ymlaen**
**Pris: £12 + Cludiant**
**Unrhyw elw at elusennau ambiwlans**
**Archebion a gwybodaeth bellach: shephard49@btinternet.com**


Osian Hayes
Beti Wyn James
Ethan a Iestyn
Llinos Jones
Elen's iPad
Trefina
Greta a Miriam
Meredydd
Eirian Lewis
Lloyd & Laura Thomas
Mwynwen Jones
Greta Ann
Heledd Tomos
Mac
Mute
Stop Video
Security
Participants
Chat
Share Screen
Record
Reactions
End





# TUDALEN BLAEN

***Rheswm y Dr Catrin Haf Williams dros ddewis adnodau o'r Efengyl yn ôl Luc***



Ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf, dros ddeng mis yn ôl bellach, derbyniais wahoddiad i gyfrannu ysgrif i gyfrol newydd sydd yn codi trafodaeth rhwng arbenigwyr beiblaidd a diwinyddion ar gwestiynau hanesyddol a christolegol: pwy oedd Iesu o Nasareth yng nghyd-destun y ganrif gyntaf, a beth oedd prif nodweddion ei genhadaeth? Y dasg a roddwyd i mi oedd cychwyn deialog gyda diwinydd o Brifysgol Yale yn yr Unol Daleithiau am y modd y caiff Iesu ei bortreadu yn yr Efengylau fel un sy'n cynnig *rhyddhad i gaethion*. Yr oedd y ddau ohonom yn gwbl gytûn mai'r testun allweddol i'w drafod yn y cyswllt hwn yw'r olygfa honno yn Efengyl Luc lle mae Iesu, ar ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus, yn ymweld â synagog yn Nasareth, y dref lle cafodd ei fagu, ac yn codi i ddarllen y geiriau canlynol o Eseia 61:1-2:

**'Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio**
**i bregethu'r newydd da i dlodion.**
**Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion,**
**i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd' (Luc 4:18-19).**

Er mor gyfarwydd yw'r geiriau hyn, mae'r olygfa yn Nasareth yn nodedig am nifer o resymau. Dyma, er enghraifft, yr unig gyfeiriad yn yr Efengylau, ac yn wir yn y Testament Newydd, at Iesu fel un sydd yn gallu *darllen,* ac – ar yr achlysur arbennig hwn – yn dyfynnu ond hefyd eu dehongli eiriau adnabyddus Eseia fel diffiniad a phatrwm ar gyfer ei weinidogaeth ef ei hun: '*Heddiw yn eich clyw chwi'*, fe ddywed, *'y mae'r Ysgrythur hon wedi ei chyflawni'* (Luc 4:21). Tra bod Iesu, yn ôl Mathew a Marc, yn cychwyn ei weinidogaeth gan gyhoeddi bod teyrnas Dduw bellach wedi dod yn agos a bod angen edifarhau a chredu'r efengyl (Marc 1:15; Mathew 4:17), yn Efengyl Luc caiff ei bortreadu fel un sy'n defnyddio'r Ysgrythurau er mwyn esbonio natur a phwrpas ei genhadaeth.

Peth arall a ddaeth yn eglur i mi wrth lunio'r ysgrif ar y naratif yn Luc 4 oedd bod nifer o Iddewon eraill hefyd yn y ganrif gyntaf yn gwneud defnydd helaeth o Eseia 61, yn enwedig y grŵp hwnnw o grefyddwyr a ymneilltuodd i'r anialwch er mwyn creu cymuned sanctaidd ac a ddaeth yn adnabyddus drachefn, ugain canrif yn ddiweddarach, pan ddarganfuwyd eu sgroliau mewn ogofâu uwchben y Môr Marw – Sgroliau'r Môr Marw. Ond tra bod yr Iddewon hyn yn defnyddio eu Hysgrythurau i fynegi eu gobaith am ddyfodol gwell, yr hyn a gyhoedda Iesu yn ôl Luc yw mai ef ei hun yw'r ffigur proffwydol eneiniedig a ragfynegwyd bum canrif yn gynt gan broffwyd arall – y proffwyd Eseia.



Nid proffwyd traddodiadol mo Iesu yn ôl yr olygfa yn y synagog yn Nasareth, ond ffigur sydd yn pregethu '*newydd da i dlodion'* ac, yn sgil hynny, yn gallu cyhoeddi rhyddhad i bawb sydd wedi eu llethu gan orthrwm a chaethiwed. Heb amheuaeth '*rhyddhad*' yw thema ganolog y dyfyniad o eiriau Eseia, lle defnyddir y gair Groeg priodol nid unwaith ond ddwywaith*: 'cyhoeddi rhyddhad (aphesis) i garcharorion'* a '*pheri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd'*, neu'n llythrennol, '*cerdded mewn rhyddhad'* (*aphesis*).

Ond yn unol â swyddogaeth geiriau Eseia fel crynodeb o natur gweinidogaeth Iesu, maent hefyd – yn eu cyd-destun newydd – yn cael eu gwireddu ar bob math o wahanol lefelau: rhoi bwyd i'r tlodion, rhyddhau cleifion o'u hafiechydon, cynnig rhyddid i'r rhai sydd yn gaeth i'w meistri. Fel rhagflas, felly, o'r hyn a gyflawnir gan Iesu yn ystod ei fywyd, pwysleisia Luc nad un cyflwr penodol yw '*bod yn gaeth'*, ond amryw o gyflyrau sy'n effeithio ar bob agwedd o'r bywyd dynol – yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn economaidd, ac yn feddyliol – a chyflyrau y gallwn oll uniaethu â hwy o achos y caethiwo enbyd a ddaeth yn sgil Covid.



Nid yw Luc, fodd bynnag, am awgrymu bod y rhyddhad a gynigir gan Iesu yn digwydd ar amrantiad, hynny yw, yn syth ar ôl ei ymweliad â Nasareth. Yr hyn a bwysleisia yng ngweddill y naratif yw bod rhyddid yn rhan o broses, ac yn deillio o un 'iachâd' ar ôl y llall. Oherwydd hynny, medd Luc, mae angen amynedd ond hefyd ddyfalbarhad. Neges ddiysgog Eseia – a Iesu ei hun yn ei dro – yw bod rhyddid a rhyddhad ar y gorwel, ac y daw adnewyddiad mewn amser i gymryd lle caethiwed ac anobaith.

# WALES PEN CYMRU



**Mae Wales PEN Cymru yn un o nifer o ganolfannau PEN mewn dros 100 o wledydd ar draws y byd. Llywydd Wales PEN Cymru yw Menna Elfyn, un o'n haelodau. Bu Papur Priordy'n ei holi am y mudiad.**

**PP: Beth am ddechrau drwy ofyn pryd sefydlwyd PEN ac i ba bwrpas?**

**ME**: Sefydlwyd PEN wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 1921 a dyma'r sefydliad hynaf sy'n ymwneud â hawliau dynol. Bydd yn dathlu canmlwyddiant eleni. O'r cychwyn, y bwriad oedd sefydlu canolfannau ar draws y byd a fyddai'n sefyll dros ryddid mynegiant ysgrifenwyr a hynny heb fod ynghlwm wrth unrhyw garfan na phlaid wleidyddol. Y nod oedd bod yn gorff a fyddai ar wahân i gyrff llywodraethol. Yn hytrach, byddent yn medru ymgyrchu o blaid hyrwyddo rhyddid mynegiant a herio awdurdodau sy'n ceisio cyfyngu, distewi neu gosbi barn.

**PP: Mae'r enw 'PEN' yn un diddorol! Beth yw'r tarddiad?**

**ME:** Ydi, ac mae'n golygu rhywbeth arall yn Gymraeg wrth gwrs! Ond acronym yw: **P**oets. **E**ssayists. **N**ovelists sef y prif llenddullliau ysgrifennu a chyhoeddi ganrif yn ôl. Erbyn heddiw, gall olygu blogwyr, dramodwyr, artistiaid o bob math sy'n creu, o gyfarwyddwyr theatr, libretwyr, neu artistiaid eraill. Yn flaenllaw gyda'r rhain erbyn heddiw yw'r newyddiadurwyr sy'n adrodd y newyddion neu adroddiadau am weithgareddau a all ddigio'r awdurdodau mewn grym. Yn anffodus, mae'r ymateb ar ran PEN i hyn yn hollbwysig boed wrth ymateb i lofruddiaeth newyddiadurwraig o Malta neu dynnu sylw at ladd newyddiadurwraig arall -- sef y chweched i gael ei llofruddio yn Mecsico eleni am rannu newyddion am ddrwgweithredoedd ei gwlad. Heb anghofio prif nod PEN sef dathlu llenyddiaeth o bob math: ei lledaenu a'i gwerthfawrogi ym mhob dull posibl.

**PP: Pryd daeth Wales PEN Cymru i fodolaeth felly?**

**ME:** 2014 y'i sefydlwyd yng Ngŵyl Aeaf y Gelli Gandryll. Ond bu'n dipyn o daith cyn y llwyddwyd i'w sefydlu. Ceisiodd llenorion fynd ati i sefydlu cangen yn y chwedegau ond wedyn daeth yr Academi i fodolaeth fel corff i lenorion. Ceisiais innau gyda Raymond Garlick yn niwedd yr wythdegau ei sefydlu ond yr ateb a gafwyd bryd hynny oedd bod modd ymuno â PEN Lloegr! Roedd hynny cyn datganoli a doedd PEN Lloegr ddim yn deall yn iawn pam y byddem am sefydlu corff ein hunain! Ceisiodd Ned Thomas hefyd wedi hynny ond ar ôl i ddatganoli ddigwydd, aeth yr Alban ati ar unwaith i sefydlu cangen, gogledd Iwerddon hefyd (ac roedd mwy o wasgfa yno i brysuro ei sefydlu). Cymru felly oedd yr olaf i fynnu trefniadaeth o dan aden y corff rhyngwladol. A rhaid dweud erbyn heddiw rydym yn cydlynu yn hapus gyda PEN Lloegr a PEN yr Alban. Ac mewn cysylltiad â PEN Iwerddon pan ddaw'r galw. Buom yn ffodus i gael Cyfarwyddwraig wrth y llyw a lwyddodd i sefydlu'r gangen ar dir solet. Ymgymerodd Sally Baker, cyn-gyfarwyddwr Tŷ Newydd, â'r gwaith hwn am sawl blwyddyn nes i Gyfnewidfa Lên glymu'r gwaith yn daclus gyda'u gweledigaeth ryngwladol lenyddol hwy.

**ME: Beth am yr aelodaeth – yn fyd-eang ac yng Nghymru?**
**ME:** Mae dros 147 o ganolfannau erbyn hyn ar draws y byd a'r gwledydd mwyaf bywiog yn aml yw'r gwledydd hynny lle mae gormes ar ysgrifenwyr. Cofiaf gwrdd â rhai o Ethiopia yn y Gyngres rai blynyddoedd yn ôl ac roedden nhw yno er i'r awdurdodau geisio eu gwahardd rhag teithio i Gwebec, lle roedd y Gyngres yn cael ei chynnal. Ond mynd a wnaethant gan ddisgwyl cael eu harestio wedi iddynt ddychwelyd adref. Dda gen i ddweud na chawsant eu cadw yn y ddalfa yn hir bryd hynny ond dengys y math o bwysau sydd ar aelodau a'r 'ofn' sydd gan lywodraethau o rym PEN fel corff. Tueddwn i anghofio mor anodd yw hi i rai ysgrifennu heb rwystrau o bob tu. Fel mentor ym Mhrifysgol Caerhirfryn ar ryw hanner dwsin o feirdd o wahanol wledydd yn Affrica, ddegawd yn ôl, cawn glywed yn gyson oddi wrth un neu ddau iddynt gael eu gwaith wedi ei sensro. Bu un mor anffodus â'i gerdd yn cael ei hatal yn fyw ag yntau ar ganol ei darllen ar y radio cenedlaethol!

Cynhelir Cyngres yn flynyddol lle y ceir y cyfle i bleidleisio ar wahanol gynigion o bwys – yn union fel y Cenhedloedd Unedig. Dyna falchder a deimlais wrth eistedd drws nesa i 'Viet-Nam' a Zimbabwe nes draw– dwy wlad rwy wedi treulio amser ynddynt fel bardd a gwledydd sy'n gwybod yn iawn am anawsterau y sawl sy'n ysgrifennu.

**PP: Mae aelod arall o'ch teulu'n dal swydd gyda Wales PEN Cymru, on'd oes?**
**ME**: Wel am sawl blwyddyn fe fu Fflur yn gyd-gadeirydd gydag Owen Sheers. Roedd yn hollbwysig clymu dwyieithrwydd i'r cyfansoddiad gyda'r naill a'r llall yn cynrychioli'r ddwy lenyddiaeth yng Nghymru. Mae pob dim yn mynd allan i aelodau yn y ddwy iaith ac aelodau o sawl grŵp ethnig arall ar ein llyfrau. Rhyw gant a hanner o aelodau sydd gennym hyd yn hyn ond mae'r gefnogaeth yn fwy lluosog na hynny a'r digwyddiadau a fu wedi creu brwdfrydedd mawr. Dylid ychwanegu bod y cyfan yn wirfoddol, gyda bwrdd rheoli o awduron a gweinyddwyr celfyddydol.

**PP: Allwch chi roi ambell enghraifft i ni o'r ffordd mae cangen Cymru'n gallu cyfrannu at weledigaeth PEN?**
**ME:** O'r cychwyn roeddem am weithio yn rhyngwladol gyda'r ymgyrchoedd sy'n digwydd ar draws y byd a bywydau awduron yn y fantol. Oherwydd hynny, rwy'n gyson yn gorfod arwyddo neu lunio llythyr i lywodraethau sy'n bygwth carcharu llenorion – neu waeth. Ond hefyd y mae yna wedd Gymreig a Chymraeg i'r gwaith. Mae llawer o weithgaredd wedi digwydd yn ne Cymru, boed yn weithdai i hybu llythrennedd neu i gefnogi rhai cymunedau sydd wedi dod o wledydd eraill; yn aml bu'n rhaid iddynt ddianc o'u mamwlad. Rhoi cyfle iddynt flodeuo a sefydlu yma yw'r bwriad. Cafwyd prosiect o efeillio awdur Cymraeg neu sy'n sgrifennu yn Saesneg gydag awdur sydd wedi symud i fyw yma. Cefais fy ngefeillio gyda dramodydd / bardd o Dwrci, un sydd wedi ei dedfrydu gyda llaw i garchar am oes am fod yn bresennol mewn protest ddi-drais yn Nhwrci. Cafodd ei gwaith ysgrifennu ei wahardd hefyd gan lysoedd yno. Dyna un enghraifft o'r hanner dwsin o awduron sydd bellach â rhyw fath o gyfeillgarwch llenyddol gyda'n haelodau ac sydd eu hunain yn rhan o'r gymuned lenyddol, flaengar. Fe wnaethom gynnal prosiect rhwng y Cwrdiaid a Chymru flwyddyn neu ddwy yn ôl a dyna falch oeddem o gael PEN Rhyngwladol yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith a wnaed yn gyhoeddus.



**PP: Mae 21 Chwefror sef Diwrnod Rhyngwladol Mamiaith o bwys mawr i PEN. Allwch chi esbonio pam?**

**ME:** Un o brif egwyddorion PEN yw hyrwyddo mamieithoedd ar draws y byd ac mewn dogfen ddiweddar gan PEN - nodwyd eu hymrwymiad i hybu, hyrwyddo ac ymgyrchu dros ddefnydd o ieithoedd lleiafrifol. Mae hyn yn berthnasol i ni wrth gwrs ac mae'r Gymraeg o'I chymharu ag ambell famiaith mewn sefyllfa dda i gynghori neu adrodd ein hanes. Ceir Her Gyfieithu hefyd - a sawl iaith yn cael ei dewis gan Gyfnewidfa Lên sydd fel y nodwyd yn gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i PEN Cymru. Hynny, nes inni gael digon o gyllid i gyflogi swyddog amser llawn i weithio dros PEN Cymru.Y llynedd hefyd, sefydlais wobr Emyr Humphreys / PEN gyda'r bwriad o ddewis y darnau mwyaf beiddgar a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn gan godi arian o wahanol ffynonellau ar gyfer cyflawni hyn.



**PP: Beth am y dyfodol? Oes rhywbeth neilltuol gan Wales PEN Cymru ar y gweill?**

**ME:** Bu PEN Cymru a PEN yr Alban yn gweithio'n galed i ddwyn i sylw'r byd at sefyllfa beirdd mewn carchardai yn Nhwrci. Un o'r rhain yw **Ilhan Sami Comak** a arestiwyd pan oedd yn fyfyriwr ifanc a bu yn y carchar am 27 o flynyddoedd - dylai gael ei ryddhau ymhen tair blynedd o'i ddedfryd oes ond rydym am weld a ellir ei ryddhau yn gynt. Ni chafodd, fel llawer o'r awduron a'r newyddiadurwyr yn Nhwrci achos llys, yn hytrach ei arteithio nes iddo arwyddo cyffes iddo roi coedwig ar dân. Trosedd ryfedd i un â'i gariad at natur! Mae'r creithiau ar ei gorff o hyd yn tystio i'w gyffes ffug. Mae'n fardd nodedig, cyhoeddodd 8 o gyfrolau tra y bu dan glo a bu ef a minnau yn ysgrifennu cerddi at ein gilydd. Mae ei agwedd raslon at ei garchariad yn rhyfeddol. A'i gerddi yn llifo o'i gariad at geinder a melyster bywyd.

**PP: I gloi, sut mae dod o hyd i ragor o wybodaeth am PEN a Wales PEN Cymru?**

**ME**: Mae yna wefan sydd yn cael ei ddiweddaru yn gyson a gellir anfon ac ymuno â'r ganolfan drwy archeb banc neu siec i'r swyddfa. Yn yr oes sydd ohoni, gyda 'newyddion ffug' yn cael ei wyntyllu yn gyson, dyma ganolfan sydd yn sefyll dros ryddid mynegiant a thros hawl y sawl sy'n sgrifennu i fynegi ei f/barn heb i hynny gael ei ystyried yn drosedd. Wedi'r cyfan aniddigio yw un o nodweddion y sawl sy'n ysgrifennu. Boed i hynny barhau!

***Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau a phob dymuniad da i Wales PEN Cymru ac i chi fel llywydd.***

**Fy Molawd i Ehediad**

***(cyfieithiad o gerdd Ilhan Sami Comak, cerdd deyrnged i Menna Elfyn)***




**Rhoddaf fawl i holl anwesau**
**gwragedd**
**sy'n fy nghyrraedd yn fy nghell.**
**Rhoddaf fawl i'r gwynt sy'n adnabod**
**mai'r gwynt yw, minnau heb ddrws,**
**eto f'adenydd sy'n ymestyn mor llydan â'r Atlas.**
**Mae adar mewn cariad â mi.**
**Clywaf eu mwynhad mewn caneuon**
**a distawrwydd eu glesni a'u**
**gwyrddni**
**sy'n rhoi tangnefedd i mi. Mae**
**grisffordd**
**sy'n arwain at uchder eithaf**
**bywyd.**



**Caraf yr adar am ein bod yn**
**frodyr-mewn-newyn**
**wrth i'r ffenest wichian gyda**
**blinder ei ffrâm;**
**felly pyncia dy alaw yn glir,**
**aderyn hardd.**
**Gad inni fynd yn wenfflam draw at y moroedd:**
**byd fy mhlentyndod pan gredwn bob un stori.**
**I'r amserau pan gwympais, a**
**chwympo,**
**sgathru penliniau, a'r boen yn fy**
**llaw gwaedlyd,**
**i wayw'r awyr a gwewyr y ddaear,**
**ac at yr anhalogedig arbrawf**
**llachar -- y glaw.**
**Rwyf gyda'r adar.**
**Bywyd yn fy nerbyn**
**+Eto. Ato.**

***Cyf. Menna Elfyn***




**Darlith y Gymdeithas Hanes**



**Dr Alun Tudur**

**10 Chwefror 2021 – 7.30**
**Dros Zoom**

**e-bostwch Undeb Annibynwyr Cymru i dderbyn cyswllt**

## Pythefnos Masnach Deg


**Dydd Llun 22 Chwefror - Dydd Sul 7 Mawrth 2021.**

**Am bythefnos bob blwyddyn, mae miloedd o unigolion, cwmnïau a grwpiau ar draws y Deyrnas Unedig yn dod ynghyd i rannu straeon y bobl sy'n tyfu ein bwyd a'n diodydd ac yn tyfu'r cotwm yn ein dillad.**

**Ewch i wefan Masnach Deg i gael rhagor o wybodaeth- https://www.fairtrade.org.uk**

***COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS***





## Huw Jones…..



## Gwaith Is-bwyllgor yr Adeiladau

Er bod y Capel wedi bod ar gau am ran helaeth o 2020 roedd y gwaith cynnal a chadw yn mynd yn ei flaen. Buodd y tîm yn brysur iawn a chafwyd un pwyllgor yn y festri a'r gweddill drwy e-bost.



Adeiladwyd y Capel yn 1871 felly mae angen tipyn o waith cynnal a chadw arno erbyn hyn.

Fe gafwyd sgaffaldau wedi'u gosod y tu mewn er mwyn ailblastro rhannau o'r waliau a wedyn aibeintio'r cyfan yn ystod yr haf. Hefyd, buon ni'n trwsio a glanhau'r ffenestri





Roedd yr estyniad cefn mewn cyflwr gwael - y to'n gollwng a'r gwaith coed nesaf at y to wedi pydru. Erbyn hyn mae'r gwaith adnewyddu wedi'i orffen.

Y cam nesaf fydd rhoi ffenestri newydd yn yr un adeilad gan fod y fframiau wedi pydru.

Mae angen un ffenest newydd yn y festri ac ailbeintio fframiau'r ffenestri i gyd oddi allan.

***DIOLCH*** i holl aelodau'r pwyllgor am eu cyngor a'u help yn ystod blwyddyn anodd - gwaith tîm yw'r cyfan. Hoffwn hefyd groesawu Emlyn Schiavone a Dennis Jones atom.

***Diolch ar ein rhan ni i gyd i Huw Jones, Cadeirydd yr Is-bwyllgor am yr adroddiad hwn ac i aelodau'r tîm ac iddo fe'n arbennig am ofalu am ein hadeiladau mor ardderchog – gwaith hollbwysig.***

# DATHLIADAU GŴYL DEWI CAERFYRDDIN 2021

## Mae nifer o ddigwyddiadau rhithiol wedi'u trefnu



## RHAI PIGION



## CHWEFROR 2021

| | |
|---|---|
| 26 | Trefnu Blodau gyda Wendy Davies (Blodwen) Menter Gorllewin Sir Gâr |
| 28 | Oedfa Ddigidol Gŵyl Dewi dan arweiniad Y Parchedig Beti-Wyn James |

## MAWRTH 2021

| | |
|---|---|
| 1 | Eglwys San Pedr – Cyswllt i wasanaeth Eglwys Gadeiriol Tyddewi |
| | Band Chwyth Symffonig Caerfyrddin – Hen Wlad fy Nhadau |
| 3 | Talwrn y Beirdd |

Trefnir digwyddiadau gan y canlynol

Menter Gorllewin Sir Gâr
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Oriel Myrddin
Yr Atom
Rhodfa Myrddin
Siambr Fasnach Caerfyrddin
Caerfyrddin AGB / Carmarthen BID
Cymdeithas Cwryglau a Rhwydwyr Caerfyrddin

Cyswllt a manylion pellach am amserau a dolenni


Jenny Fox
Cyngor Tref Caerfyrddin
jafox@carmarthentowncouncil.gov.uk

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

## NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### Cyfarfod Dechrau'r Flwyddyn

Bob blwyddyn, dan adain y Cyngor Eglwysi, cynhelir Oedfa Weddi a Myfyrdod ar y nos Fercher gyntaf yn y mis. Fe'i cynhaliwyd ar Zoom eleni.




### Oedfa Weddi am Undeb Cristnogol

Cynhaliwyd yr oedfa hon yn rheolaidd am sawl blwyddyn dan adain y Cyngor Eglwysi. Yna, rhoddwyd y gorau i'w chynnal am gyfnod gan deimlo ein bod yn rhagrithio - am nad oeddem o ddifrif.

Ers sawl blwyddyn bellach rydym wedi ailddechrau cydaddoli ar ddechrau'r wythnos am Undeb Cristnogol. Cynhaliwyd yr oedfa eleni ar Zoom gyda aelodau Capel y Maes (Presbyteriaid Saesneg), Salem (Annibynwyr). Noddfa a Seilo (Presbyteriaid), ac Eglwysi Llanbeblig a'r Santes Fair (Anglicaniaid Cymraeg a Saesneg).



### Ysgol Sul y Plant

Ailddechreuwyd cynnal yr Ysgol Sul ar ôl y Nadolig gan gynnal y cyfarfodydd ar Zoom am 11.30 ar ôl oedfa'r bore.

***Mae Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul yn Salem, fel yn Y Priordy a sawl man arall, yn parhau ar Zoom ar hyn o bryd. Pob dymuniad da i'n cyfeillion yng Nghaernarfon wrth y gwaith.***

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS


| Chwefror | | Mawrth | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Gwynfor Davies | Philip Jones | Emlyn Schiavone | Huw Jones |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwefror | 7 | Elen Marks | Mawrth | 7 | David Lewis |
| | 14 | Gill Owens | *Sul y Mamau* | 14 | Y Mamau |
| | 21 | Dr H Michael | | 21 | Elinor W Reynolds |
| | 28 | Y Plant | *Sul y Blodau* | 28 | Y Plant |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chwefror | Elis Jones | Mawrth | Philip Jones |




**LLOERGANIADAU**

**Fflur Dafydd**

**Y Lolfa: £9.99**

**Tachwedd 2020**

**Trysor o gyfrol o atgofion yr awdures amryddawn, Fflur Dafydd, a fu erioed yn syllu tuag at y lloer….**

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

## Y DIWEDDAR VICTOR JONES

Yn dawel, yng Nghartref Allt y Mynydd, Llanybydder ar 31 Rhagfyr 2020 bu farw aelod hynaf y Priordy, Victor Jones.

Yn enedigol o Frechfa, bu'n amaethu gyda'i ddiweddar briod, Jessie, yng Nghapel Iwan a Chwm-cou, Castellnewydd Emlyn tan iddynt ymddeol i Erw Hir Caerfyrddin.

Bu Victor yn ofalus iawn o'i briod gan fod ei hiechyd yn fregus iawn. Gadawodd ei marwolaeth wagle mawr yn ei fywyd. Serch hynny, parhaodd yn siriol drwy'r cyfan a byddai bob amser yn gwisgo gwên fawr lydan.

Daeth â'i aelodaeth i'r Priordy o Gapel y Presbyteriaid Castellnewydd Emlyn a bu'n hynod o ffyddlon yn yr oedfaon, yn bresenoldeb tawel yn y sedd gefn.

Bu'n gymydog heb ei ail ac yn hynod o gymwynasgar i'w gymdogion yn Erw Hir. Cofiwn gyda diolchgarwch am ei ben-blwydd yn 100 oed ddwy flynedd yn ôl a'r teulu wedi trefnu bod ei gartref yn agored ar y dydd i dderbyn ffrindiau. Bu ei deulu, sy'n cynnwys ein Mwynwen ni a'i rhieni, Gwynfor a Mari, yn hynod o garedig iddo ar hyd y blynyddoedd, ynghyd â Tegwyn ac Anita, ei nai a'i nith.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i deulu. Oherwydd y cyfyngiadau presennol, roedd ei angladd, a gynhaliwyd ym Mharc Gwyn ar 14 Ionawr 2021 yn gwbl breifat ond diolch yn fawr iawn i'r aelodau a'r cymdogion a ymunodd trwy gyfrwng y we-ddarllediad.  Gwasanaethwyd gan ei weinidog.

Coffa da am un o blant anwylaf a siriolaf Duw.

.

**Ein Gweinidog**

***DYMUNWN*** yn dda ar ddechrau Blwyddyn Newydd i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w haelwydydd. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Ar Nos Galan bu Elinoir Wyn Reynolds yn cymryd rhan yn rhaglen **Heno** ar **S4C** i ffarwelio â 2020. Yna, bu Glenys Thomas yn cymryd rhan yn y rhaglen **Cefn Gwlad (2021): Dathlu Dai**, sef rhaglen i ddathlu cyfraniad arbennig Dai Jones (Llanilar), ffermwr, canwr, diddanwr a darlledwr a thrysor cenedlaethol, a ddarlledwyd ar Ddydd Calan. Bu'n sôn yn arbennig am ddirieidi a dawn dweud 'Defi John' – fel y byddai'n ei adnabod - yn ystod dyddiau ysgol yn Llangwyryfon yng Ngheredigion.



Bu Beti-Wyn ar y **Post Cyntaf** ar **Radio Cymru** yn siarad am y modd mae hithau a Chapeli'r Ofalaeth wedi addasu'u dulliau o addoli yn ystod y pandemig. Nododd fod ein gwasanaethau ar gael nid yn unig i aelodau'r capeli ar y Sul ond hefyd yn ddiweddarach yn y dydd ar gyfer pawb sy'n dymuno hynny drwy'r we ddigidol. Roedd hefyd yn fawr ei chanmoliaeth i aelodau'r Ofalaeth, yn enwedig y rhai hŷn ohonom, am addasu mor rhagorol i'r trefniadau newydd drwy roi ein sgiliau technolegol ar waith a'u mireinio! Dywedodd y byddwn yn parhau i baratoi gwasanaethau digidol ar ôl i ni ddechrau cyfarfod wyneb yn wyneb yn fwy parhaus yn y dyfodol.

Ar raglen **Bwrw Golwg ar Radio Cymru** bu eitem yn ystyried a yw addoli rhithiol yn ystod y pandemig wedi denu pobl newydd at gapel neu eglwys. Bu ymateb gan Llinos Jones, yn wreiddiol o Forfa Nefyn ond sydd bellach yn byw yng Nghaerfyrddin. Nododd ei bod wedi'i hysbrydoli gan wasanaethau digidol y Priordy gan weld fod ei rhagfarnau ynghylch capeli'n wahanol i realiti. Mae'r profiad o wylio a gwrando wedi'i deffro a'i gwneud i gofio'i bod yn Gristion a chodi awydd ynddi i droi i mewn i'r oedfaon yn y Priordy yn y dyfodol.

Sir Gâr oedd thema un o'r rhaglenni diweddar yn y gyfres **Cofio** ar **Radio Cymru** a chawsom gyflwyniad i'r sir gan Beti-Wyn a olrheiniodd ei phrif nodweddion ddoe a heddiw.

Gwahoddwyd Beti-Wyn i siarad ag aelodau Côr Cymraeg Gogledd America dros Zoom ar Sadwrn olaf y mis - 4 y prynhawn gyda ni ond 10 o'r gloch y bore gyda nhw. Ar ben hynny, gan fod aelodau'r côr yn dod o gymaint o rannau gwahanol o UDA a Chanada roedd yr amser yn gwahaniaethu o dalaith i dalaith! Roedd Beti-Wyn wedi rhyfeddu o weld 54 o bobl yn ei wynebu ar y sgrîn ac yn ei holi am ei gwaith, yn enwedig sut mae'n addasu'i gweinidogaeth dros y cyfnod clo. Mari Morgan (yn wreiddiol o Lanelli) sy'n trefnu'r cyfarfodydd hyn. Mae hi'n derbyn dolen YouTube ein hoedfa bob nos Sadwrn ar yn ei anfon at aelodau'r côr. Fe welwch erthygl gan Mari ym Mhapur Priordy, Rhifyn Hydref 2020.

Bu Tim Hayes yn adolygu tudalennau chwaraeon y papurau ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**.



***AC I GLOI***, llongyfarchiadau mawr i Menna Elfyn sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig. Pob dymuniad da oddi wrth bawb yn y Priordy.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Mynegwn ein cydymdeimlad â Dennis a Rhian Jones, ar golli cyfnither Dennis, sef Glenys Towers, Penarth, ar droad y flwyddyn. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth.**

**Estynnwn ein cydymdeimlad ag Adrian a Gloria Evans ar golli ewythr Adrian, sef Mansel Edwards, Blaencwm, Pennant ar 6 Ionawr 2021. Anfonwn ein cofion cywir at ei briod, Glenys, a'i frawd, Dai, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.**

**DIOLCH YN FAWR**



Diolch i Beti-Wyn. Margot Griffith a theuluoedd yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chwefror | 7 | Bore | Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog | C |
| | 14 | Bore | Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog | |
| | 21 | Bore | Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog | |
| | 28 | Bore | Gwasanaeth Gŵyl Dewi Digidol Tref Caerfyrddin gyda'n Gweinidog. Manylion pellach mewn man arall yn y Papur hwn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 3 | Bore | Oedfa Gymun gyda'n Gweinidog | C |
| *Sul y Mamau* | 10 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | 17 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| *Sul y Blodau* | 28 | Bore | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau.

## DALIER SYLW

**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd.**

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk

